

Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig: Disgwyliadau craidd a thystiolaeth

Y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig yw'r meini prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ddylid achredu cofrestr anstatudol o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol o dan ein pwerau cyfreithiol yn Neddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd 2002.¹

Cyflwyniad

Mae'r disgwyliadau mwy manwl, a nodir yn y tabl isod, yn darparu:

- y safonau
- y disgwyliadau craidd ar gyfer pob safon yr ydym yn chwilio amdani wrth benderfynu bod safon wedi'i bodloni
- y dystiolaeth awgrymedig a ddefnyddiwn i benderfynu a yw disgwyliad craidd yn cael ei gyflawni.

Gan nad yw'r rhestr o dystiolaeth bosibl yn hollgynhwysfawr, efallai y byddwn yn dewis defnyddio tystiolaeth ychwanegol yn ein hasesiad a gall gwahanol ffurfiau o dystiolaeth gael eu darparu hefyd gan gofrestr a all fodloni'r safon. Bydd y wybodaeth y byddwn yn ei cheisio o'r gofrestr yn gymesur ac yn dibynnu ar y gofrestr, yr ymarferwyr a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer.

Mae'n bosibl i ymgeisydd am achrediad neu Gofrestr Achrededig gynnig dulliau eraill o fodloni ein Safonau, ond i wneud hynny rhaid inni ystyried y rhesymeg dros wyro oddi wrth y disgwyliadau craidd fesul achos er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu bodloni'n llawn.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/17/contents>

Gallai cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad (RhEP) fod yn berthnasol i'n hystyriaeth o'r holl Safonau. Fodd bynnag, rydym wedi rhestru cyflwyniadau RhEP yn erbyn Safonau ble rydym yn gofyn am gyflwyniadau neu'n eu derbyn yn gyffredin.

Bydd y ddogfen hon yn destun adolygiad rheolaidd unwaith y bydd ar waith. Yn wahanol i'n Safonau, y byddwn yn ymgynghori arnynt cyn i ni wneud newidiadau, efallai y byddwn yn gwneud newidiadau i'r dystiolaeth a awgrymir yn ddeinamig i sicrhau bod ein fframwaith yn ymatebol i risgiau sy'n newid.

Mae **testun pinc** yn dynodi disgwyliadau newydd ar gyfer 2026/27. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu dim ond argymhellion fydd yn cael eu gwneud ar gyfer y rhain. O'r ail flwyddyn ymlaen efallai y byddwn yn gosod amodau ar y disgwyliadau hyn.

Achredu cofrestr wirfoddol

Safon	Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig	
Cymhwysedd a Budd y Cyhoedd Mae'r gofrestr yn gymwys i gael ei hachredu, yn gweithredu'n gyfreithlon, ac mae achredu'r gofrestr er budd y cyhoedd	Cymhwyster	a) Mae'r gofrestr yn dod o fewn y gofynion cyfreithiol a nodir yn Adrannau 25E (2), (3), (4) a (5) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002
	1. Mae'r gyfraith yn caniatáu achredu'r gofrestr oherwydd: ei bod yn gofrestr o ymarferwyr iechyd (ledled y DU) neu ymarferwyr gofal cymdeithasol (Lloegr yn unig); nid oes gofyniad cyfreithiol i fod wedi cofrestru i ddefnyddio teitl gwarchodedig a/neu gyflawni'r ymarfer	Tystiolaeth Awgrymedig: - Dogfennau llywodraethu allweddol megis Erthyglau Cymdeithasu, Memoranda Cymdeithasu, Siarteri, Cylchoedd Gorchwyl, Rheolau Sefydlog - Gwiriadau'r Awdurdod o gyfraith y DU i wneud yn siŵr nad oes gofyniad cyfreithiol ar y rolau cofrestredig i ddefnyddio teitl, gweithio mewn proffesiwn, na darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn Lloegr
		b) Rhaid i waith ymarferwyr ddod o fewn y gofynion cyfreithiol a nodir yn Adrannau 25E (6), (7), (8) a (9) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 sy'n disgrifio rolau ymarferwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol
		Tystiolaeth Disgrifiadau rôl yn egluro'r gweithgareddau y mae ymarferwyr yn eu cyflawni

		Adolygiad yr Awdurdod o ddiffiniadau rolau a ddarperir gan sefydliadau swyddogol²
	Budd y cyhoedd 2. Mae er budd y cyhoedd achredu'r gofrestr	a) Mae tystiolaeth wrthrychol bod defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar yr ymarfer Tystiolaeth Awgrymedig: - Adolygiad desg yr Awdurdod o wybodaeth a ddarperir gan y gofrestr yn erbyn ffynonellau cyfeirio allweddol, megis y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a sefydliadau cyfwerth megis Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban (SIGN), Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), adroddiadau Cochrane a ffynonellau dibynadwy tebyg megis papurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid - Tystiolaeth o ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth megis Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion - Adolygiad yr Awdurdod o ymatebion Rhannu Eich Profiad am brofiadau'r ymarfer b) Mae risgiau'r ymarfer, gan gynnwys y potensial ar gyfer hawliadau camarweiniol a heb eu profi, yn cael eu nodi, eu cyfiawnhau, a'u rheoli gan safonau a gofynion cofrestru'r gofrestr Tystiolaeth Awgrymedig: - Cofrestr risg ymarferwyr sy'n dangos dealltwriaeth drylwyr o risgiau ymarfer ac sydd â mesurau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â nhw. Bydd y lliniariadau hyn yn cael eu hasesu ymhellach yn erbyn y Safonau eraill ar gyfer Cofrestrau Achrededig fel rhan o gais llawn neu asesiad adnewyddu llawn - Tystiolaeth yn dangos dealltwriaeth y Gofrestr o ofynion y cyflogwr a'r corff contractio sydd ar waith o amgylch eu hunigolion cofrestredig ac a yw materion addasrwydd proffesiynol yn cael eu hystyried yn rheolaidd

² Cydnabyddir bod gan sefydliad swyddogol yr awdurdod i roi cyngor ar y gyfraith ac iechyd a gofal cymdeithasol. Gall y rhain fod yn adrannau llywodraeth y DU neu'n awdurdodau'r sector cyhoeddus neu'n sefydliadau cenedlaethol neu ryngwladol sydd ag arbenigedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n defnyddio tystiolaeth ddibynadwy i ymgymryd â'u gwaith. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU, Llywodraeth yr Alban, Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), Sgiliau ar gyfer Gofal, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

		• Tystiolaeth sy'n cefnogi penderfyniadau'r Gofrestr ynghylch sut mae addasrwydd proffesiynol yn cael ei wirio • Polisiâu a phrosesau ar gyfer adolygu cofrestr risg ymarferwyr yn rheolaidd gan gynnwys nodi risgiau newydd, ymatebion priodol ac adolygiad gan y corff llywodraethu ar gyfer y gofrestr • Mae adolygiad yr Awdurdod o wefan, cyfathrebiadau a deunyddiau eraill y Gofrestr yn nodi gwybodaeth glir a hygyrch am gyfyngiadau a manteision triniaethau a gynigir gan ymarferwyr • Adolygiad yr Awdurdod o sampl o wefannau ymarferwyr, safleoedd cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau perthnasol eraill • Adolygiad yr Awdurdod o benderfyniadau rheoleiddio sy'n ymwneud ag arfer megis canlyniadau'r Asiantaeth Safonau Hysbysebu (ASA) • Gofynion ar ymarferwyr i hysbysebu a chynnig gwasanaethau yn foesebol ac yn gyfreithlon fel rhan o safonau a chanllawiau ymarferwyr • Polisiâu a phrosesau ar gyfer adolygu gwefannau ymarferwyr pan fydd gwasanaethau'n cael eu hysbysebu i'r cyhoedd • Adolygiad yr Awdurdod o gyflwyniadau Rhannu Eich Profiad ynghylch risgiau a honiadau camarweiniol
		c) Mae manteision yr ymarfer yn gorbwyso'r risgiau a reolir
		Tystiolaeth Awgrymedig: • Adolygiad yr Awdurdod o'r dystiolaeth o fudd, y risgiau, a'r lliniariadau risg yn erbyn canllaw graddio risg yr Awdurdod ar gyfer prawf budd y cyhoedd³
		d) Mae'r gofrestr ac ymarferwyr yn cydymffurfio â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig
		Tystiolaeth Awgrymedig: • Datganiadau a wneir gan y gofrestr mewn ffurflenni cais am achrediad bod y sefydliad yn cydymffurfio â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig ar gydraddoldeb, diogelu data, cwmnïau ac elusennau, trethiant, caffael, iechyd a diogelwch, diogelu, hawliau dynol, ac, os yw'n berthnasol, cyfraith cyflogaeth. • Gwiriadau yr Awdurdod trwy wybodaeth cyrff rheoleiddio fel y Comisiynau Elusennau

³ Gweler yr Atodiad yn y ddogfen hon (tudalen 26)

		neu Dŷ'r Cwmnïau • Adolygiad yr Awdurdod o'r dystiolaeth a gyflwynwyd a'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan y gofrestr am eu gweithrediadau ac arferion ymarferwyr i nodi'r potensial ar gyfer diffyg cydymffurfio â chyfraith y DU • Sylwadau gan gofrestr os nodir diffyg cydymffurfio posibl â chyfraith y DU
--	--	--

Llywodraethu

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 1

Llywodraethu da

Mae'r corff llywodraethu ac uwch arweinwyr yn rhoi trefniadau ar waith i'r sefydliad amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol a chynnal hyder y cyhoedd

1. Mae'r sefydliad yn cael ei lywodraethu'n dda a'i arwain yn dda

a) Arddangosir llywodraethu risg ynghylch gweithrediad y gofrestr

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Cofnod o brosesau parhad busnes sy'n ystyried bygythiadau i weithrediad y gofrestr, megis newid pobl allweddol neu arweinwyr a throseddau data
- **Prawf o yswiriant atebolrwydd**
- Cofnod o bolisïau a phrosesau rheoli risg sefydliadol (gan gynnwys cofrestr risg) sy'n cynnwys adolygiad rheolaidd gan y Bwrdd
- Polisïau a phrosesau ar gyfer diogelwch gwybodaeth a diogelu data, sy'n cynnwys diogelu data sensitif sy'n bodloni gofynion cyfraith y DU
- Adolygiad yr Awdurdod o wybodaeth a gedwir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu ac adolygiad o gofnodion cyfarfodydd (ac eithrio gwybodaeth sensitif)

b) Arddangosir llywodraethu ariannol a chynaliadwyedd ar gyfer y gofrestr

Tystiolaeth:

- Polisïau a phrosesau ar gyfer gosod lefelau cyllideb a chronfeydd wrth gefn blynyddol yn seiliedig ar ragolygon incwm
- Cofnodion cyfarfodydd yn dangos ystyriaeth y corff llywodraethu o ragolygon ariannol a chynaliadwyedd (ac eithrio gwybodaeth sensitif)
- Polisïau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol, megis mesurau gwrth-dwyll
- Darparu gwybodaeth i gyrff goruchwyllo eraill neu y rhai yr adroddir iddynt (er enghraifft, Tŷ'r Cwmnïau, Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon, neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban)
- Adolygiad yr Awdurdod o gyfrifon, adroddiadau neu ddatganiadau blynyddol cyhoeddedig
- Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu

c) Arddangosir cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol aelodau'r bwrdd

		Tystiolaeth Awgrymedig: • Dogfennau llywodraethu allweddol megis Erthyglau Cymdeithasu, Memoranda Cymdeithasu, Siarteri, Cylchoedd Gorchwyl, Rheolau Sefydlog • Disgrifiadau rôl ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a rolau swyddogion eraill • Polisiâu a phrosesau ar gyfer gwerthusiad rheolaidd o rolau llywodraethu ac arwain allweddol • Dolenni i adroddiadau blynyddol cyhoeddedig perthnasol • Cyrff goruchwyllo eraill yr adroddir iddynt (er enghraifft Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon, neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) • Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu
	2. Mae'r sefydliad yn glir ynghylch, ac yn canolbwyntio ar, ei ddiben o wella diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae dogfennau llywodraethu allweddol yn dangos ffocws ar wella diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd • Disgrifiadau rôl ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a rolau swyddogion eraill • Dolenni i adroddiadau blynyddol cyhoeddedig perthnasol • Cyrff goruchwyllo eraill yr adroddir iddynt (er enghraifft Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon, neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban) • Adolygiad yr Awdurdod o gyfathrebiadau (gan gynnwys postiadau cyfryngau cymdeithasol) i asesu cysondeb â nodau diogelu'r cyhoedd a hyder • Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu
	3. Mae'r sefydliad yn meithrin diwylliant o fod yn agored a dysgu, sy'n cefnogi cynaliadwyedd sefydliadol, gwelliant a lles gweithwyr	a) Mae gan y corff llywodraethu bolisiau a phrosesau sy'n cefnogi diwylliant agored a dysgu, ac mae'n eu cynnal Tystiolaeth Awgrymedig: • Polisiâu mewnol, megis chwythu'r chwiban, rhyddid i siarad, gwrth-fwlio, diogelu, addasiadau rhesymol ac ati. • Proses fel y gall unrhyw un godi cwyn am y gofrestr • Tystiolaeth o'r gofrestr a'i chorff llywodraethu yn adolygu cwynion sefydliadol ac yn ystyried neu'n cymhwyso dysgu • Adolygiad yr Awdurdod o gyflwyniadau Rhannwch Eich Profiad gan swyddogion (SYLWER: Nid yw'r Awdurdod yn gorff rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau

		gwarchodedig fel y nodir yng Ngorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (personau rhagnodedig) 2014. Dylai unrhyw chwythwr chwiban posibl geisio ei gyngor ei hun ynghylch beth allai hyn ei olygu i'w hamgylchiadau. Mae Protect⁴ yn cynnig cyngor chwythu'r chwiban am ddim a chyfrinachol.) Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu
		b) Os oes gweithwyr, dangosir goruchwyliaeth lywodraethol o lesiant gweithwyr
		Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu mewnol, megis chwythu'r chwiban, rhyddid i siarad, gwrth-fwlio, diogelu, addasiadau rhesymol ac ati - Arferion a chanlyniadau ymgysylltu â gweithwyr, fel arolygon - Mecanweithiau cymorth i weithwyr - Tystiolaeth bod y corff llywodraethu yn ystyried lesiant gweithwyr a phrofiad o ddiwylliant - Adolygiad yr Awdurdod o gyflwyniadau Rhannwch Eich Profiad gan weithwyr (SYLWER: Nid yw'r Awdurdod yn gorff rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau gwarchodedig fel y nodir yng Ngorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (personau rhagnodedig) 2014. Dylai unrhyw chwythwr chwiban posibl geisio ei gyngor ei hun ynghylch beth allai hyn ei olygu i'w hamgylchiadau. Mae Protect⁵ yn cynnig cyngor chwythu'r chwiban am ddim a chyfrinachol.) - Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu
	4. Mae penderfyniadau cyrff llywodraethu yn gymesur, yn gyson, wedi'u targedu, yn dryloyw, yn atebol, yn ystwyth ac yn seiliedig ar risg. Maent wedi eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn ystyried safbwyntiau'r	a) Cyhoeddir dogfennau llywodraethu allweddol Tystiolaeth Awgrymedig: - Cyhoeddi dogfennau allweddol megis papurau'r Bwrdd, cofnodion a datganiadau safbwynt - Adolygiad yr Awdurdod o wybodaeth sydd ar gael ar wefan y gofrestr b) Polisiâu a phrosesau sy'n ceisio deall a defnyddio barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill

⁴ <https://protect-advice.org.uk/>

⁵ <https://protect-advice.org.uk/>

rhai y maent yn effeithio arnynt, megis defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr, fel y bo'n briodol	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu a phrosesau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu - Papurau'r bwrdd sy'n dangos gweithgareddau ymgysylltu a bod eu canlyniadau wedi helpu llywio penderfyniadau - Adolygiad yr Awdurdod o gyflwyniadau Rhannu Eich Profiad ynghylch ymgynghori ac ymgysylltu
	c) Mae gwneud penderfyniadau yn cynnwys cynrychiolaeth lleig
	Tystiolaeth Awgrymedig: Dogfennau llywodraethu allweddol yn nodi gofynion ar gyfer cynrychiolaeth leyg mewn gwneud penderfyniadau
5. Caiff gwrthdaro buddiannau ei nodi a'i reoli	a) Arddangosir polisi a phrosesau ar gyfer nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau
	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu a phrosesau gwrthdaro buddiannau ar gyfer pob gwneuthurwr penderfyniadau sy'n cynnwys ystyried gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a chanfyddedig a sut y dylid eu rheoli - Cyhoeddi cofrestrau gwrthdaro buddiannau - Cofnodion cyfarfodydd lle ystyrir gwrthdaro buddiannau (ac eithrio gwybodaeth sensitif)
	b) Gwahaniad rhwng rheoli swyddogaethau'r gofrestr, darparu addysg a hyfforddiant, a swyddogaethau cyrff proffesiynol. Tystiolaeth Awgrymedig: Mae dogfennau llywodraethu allweddol yn egluro gwahanu swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r gofrestr ac yn atal gwrthdaro buddiannau ar draws y swyddogaethau hyn

Safon 2 Adrodd ar berfformiad sefydliadol a mynd i'r afael â phryderon Mae'r sefydliad yn adrodd yn gyhoeddus ar ei berfformiad, yn nodi ac yn gweithredu ar ddysgu ac yn mynd i'r afael â phryderon am ei berfformiad	1. Mae'r sefydliad yn dadansoddi ei berfformiad ei hun i nodi meysydd i'w dysgu a'u gwella, ac yn gweithredu ar faterion a nodwyd	Tystiolaeth Awgrymedig: • Adroddiadau i Fyrddau a Phwyllgorau llywodraethu ynghylch perfformiad swyddogaethau megis cwynion a chofrestriad ymarferwyr, sicrhau ansawdd addysg a gosod safonau • Canlyniadau archwiliadau mewnol / adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd a thystiolaeth o weithredu ar y canlyniadau hynny • Enghreifftiau o'r gofrestr yn annog didwylledd a dysgu pan fydd pethau wedi mynd o chwith • Enghreifftiau o waith rhagweithiol gan y gofrestr i geisio adborth, nodi a rhoi dysgu ar waith • Tystiolaeth bod y gofrestr yn mesur effaith ac effeithiolrwydd ei pholisïau a'i phrosesau • Arsylwi yr Awdurdod ar gyfarfodydd llywodraethu
	2. Mae'r sefydliad yn dryloyw wrth adrodd ar ei berfformiad	Tystiolaeth Awgrymedig: • Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad • Rhannu adroddiadau perfformiad gyda'r Awdurdod fel rhan o'r broses asesu
	3. Mae dysgu perthnasol ac arfer gorau o adroddiadau ac ymchwiliadau allanol, gan gynnwys cyhoeddiadau'r Awdurdod, yn cael eu nodi, eu hystyried, a'u hintegreiddio i bolisi ac arfer	Tystiolaeth Awgrymedig: • Tystiolaeth yn dangos ystyriaeth y corff llywodraethu o adroddiadau ac ymholiadau allanol • Ymatebion swyddogol i adroddiadau ac ymholiadau allanol • Enghreifftiau o newidiadau i bolisi a phrosesau sy'n deillio o adroddiadau ac ymholiadau allanol

Cyffredinol

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 3

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Mae'r sefydliad yn hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn cymryd camau i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod ei bolisiau a'i brosesau yn deg ac yn gyfiawn i bawb

1. Mae'r sefydliad yn deall amrywiaeth ei **weithwyr (os yn berthnasol)**, cymdeithion a chyrrff llywodraethu, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac achwynwyr

a) Mae data demograffig neu ystadegau dibynadwy yn cael eu casglu a'u dadansoddi i ddeall amrywiaeth **gweithwyr (os yw'n berthnasol)**, cysylltwyr, cyrrff llywodraethu, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac achwynwyr

Tystiolaeth Awgrymedig:

- **Casglu data ac adrodd ar weithwyr (os yw'n berthnasol)**, cymdeithion a chyrrff llywodraethu
- Casglu data ac adrodd fel rhan o brosesau cofrestru neu adnewyddu
- Casglu data fel rhan o brosesau trin cwynion ymarferwyr
- Casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ymgysylltu ag ymarferwyr neu'r gofrestr
- Defnyddio tystiolaeth ddibynadwy o ystadegau neu ymchwil cenedlaethol

b) Defnyddir tystiolaeth i ddeall amrywiaeth profiad pobl yr effeithir arnynt gan waith y gofrestr

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Ystyriaeth drwy'r strwythurau llywodraethu o wybodaeth am amrywiaeth ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac achwynwyr a'u profiadau i gael gwared ar rwystrau a galluogi cyfranogiad
- Enghreifftiau o asesiadau effaith cydraddoldeb
- Enghreifftiau o ymchwil ac ymgysylltu sy'n berthnasol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2. Mae cyfathrebu mewnol ac allanol, polisiau a phrosesau mewnol y sefydliad yn glir ac yn deg i bawb ac yn ystyried anghenion a phrofiadau grwpiau amrywiol, gan

a) Mae gwybodaeth am rôl y gofrestr, yr ymarferwyr y mae'n eu cofrestru, a'r swyddogaethau allweddol ar gael mewn fformatau hygrych

Tystiolaeth Awgrymedig:

	gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a rennir	• Adolygiad yr Awdurdod o wefan y gofrestr am eglurder, darllenadwyaeth ac absenoldeb dolenni wedi torri neu wybodaeth sydd allan o ddyddiad • Ardystiad hygrychedd gwefan • Polisïau neu brosesau ar gyfer cyfathrebu hygrych • Adolygiad yr Awdurdod o ddogfennau cyhoeddedig • Adolygiad yr Awdurdod o ddeunyddiau cyfathrebu (megis llythyrau, negeseuon e-bost, postiadau cyfryngau cymdeithasol neu gynnwys digidol arall) b) Mae polisïau a phrosesau ar gyfer swyddogaethau allweddol yn cynnwys cefnogaeth neu addasiadau ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig cyffredin Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae polisïau a phrosesau gosod safonau yn cynnwys asesiad effaith safonau ar bobl â nodweddion gwarchodedig cyffredin • Canlyniadau addysg a hyfforddiant sy'n cynnwys disgwyliadau bod ymarferwyr wedi'u cyfarparu i ddarparu gwasanaethau i grŵp amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaeth • Polisïau a phrosesau sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cefnogaeth ac addasiadau ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant • Polisïau a phrosesau cofrestru sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cefnogaeth ac addasiadau ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant • Polisïau a phrosesau cwyno ymarferwyr sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cefnogaeth ac addasiadau ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant • Polisïau a phrosesau cwynion sefydliadol sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cefnogaeth ac addasiadau ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant
	3. Mae'r sefydliad yn deall sut y gall eu polisïau a'u prosesau arwain at ganlyniadau gwahanol ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw lle nad yw'r canlyniadau'n gyfiawn nac yn rhesymol	Tystiolaeth Awgrymedig: • Polisïau a phrosesau sy'n cydnabod y potensial ar gyfer canlyniadau gwahaniaethol ac, os yn bosibl, yn cynnwys lliniariadau • Cyhoeddi ymchwil neu fewnwelediadau i ganlyniadau gwahanol i bobl yr effeithir arnynt gan bolisïau a phrosesau

	4. Mae'r sefydliad yn mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal a chanlyniadau rhwng grwpiau amrywiol gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a rennir, tra'n annog eraill i wneud yr un peth	a) Mae polisïau a phrosesau recriwtio a hyfforddi ar gyfer aelodau'r corff llywodraethu, gwneuthurwyr penderfyniadau ac, os yw'n berthnasol, gweithwyr yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Tystiolaeth Awgrymedig: • Polisïau a phrosesau recriwtio / penodi • Polisïau a phrosesau hyfforddi bwrdd / pwyllgor / gwneuthurwr penderfyniadau / gweithwyr • Enghreifftiau o ddeunyddiau hyfforddi • Enghreifftiau o hysbysebion swyddi a disgrifiadau rôl b) Gwybodaeth a gyhoeddwyd am weithgareddau i hyrwyddo ecwiti ac ymrwymiad i gyfrifoldebau cyfreithiol dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Tystiolaeth Awgrymedig: • Datganiad o ymrwymiad i ddeddfwriaeth cydraddoldeb • Polisïau, prosesau, strategaethau neu gynlluniau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant • Cofnodion cyfarfodydd y corff llywodraethu yn dangos ystyriaeth o bolisïau, prosesau, strategaethau neu gynlluniau cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu, amrywiaeth a chynhwysiant • Enghreifftiau o weithgareddau, gan gynnwys cydweithio neu ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
Safon 4 Ymgysylltu a gweithio gydag eraill Mae'r sefydliad yn ymgysylltu ac yn cydweithio'n effeithiol, er mwyn hysbysu, gwella a chyflawni eu gwaith. Mae'n ceisio aliniad priodol ag eraill, ac yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r cyhoedd mewn	1. Mae cydweithio rhwng rheolyddion, cofrestrau a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth briodol sy'n ymwneud â risg a niwed i'r cyhoedd	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae'r gofrestr yn gallu bodloni disgwyliadau <i>Protocol Rhannu Gwybodaeth Gydweithredol y Cofrestrau Achrededig</i> • Memoranda Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundebau Rhannu Gwybodaeth gyda phartneriaid wrth amddiffyn y cyhoedd • Tystiolaeth o gydweithio megis gweithgorau, datganiadau ar y cyd, rhannu gwybodaeth, ymatebion i bryderon sy'n dod i'r amlwg • Tystiolaeth o gydweithio â chyflogwyr, cyrff contractio, y llywodraeth, asiantaethau'r llywodraeth a llywodraeth leol i rannu gwybodaeth sy'n amddiffyn y cyhoedd ac i gefnogi gwelliannau i'r prosesau o wirio, adrodd a datgan materion addasrwydd proffesiynol

perthynas â'i unigolion cofrestredig	2. Caiff polisïau a phrosesau eu llywio gan farn sefydliadau a phobl eraill, a'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarperir ganddynt, er mwyn cefnogi a hyrwyddo diogelu'r cyhoedd yn well	Tystiolaeth Awgrymedig: Polisïau a phrosesau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu sy'n cynnwys ystyried yr angen am ymgysylltu ymlaen llaw, ymgynghori ffurfiol, ymgysylltu anffurfiol, cyfathrebu ategol ac asesu effaith
	3. Lle bo'n briodol ac yn fuddiol ar gyfer diogelu'r cyhoedd ac ansawdd gofal, mae polisïau a phrosesau wedi'u halinio â rhai sefydliadau a rheolyddion / cofrestrau eraill ac yn hyrwyddo cysondeb canlyniadau ar draws y proffesiynau iechyd a gofal	Tystiolaeth Awgrymedig: - Enghreifftiau o gydweithio â Chofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid allweddol eraill - Datganiadau / ymatebion ar y cyd - Polisïau neu brosesau a ddatblygwyd neu a weithredwyd ar y cyd - Mae dysgu gan sefydliadau eraill yn cael ei gymhwyso i brosesau diogelu'r cyhoedd

Safonau a Chanllaw

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 5

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Unigolion Cofrestredig

Mae'r sefydliad yn cynnal, yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo safonau a chanllawiau cyfoes sy'n cefnogi ymarferwyr iechyd a gofal i weithredu'n broffesiynol ac ymarfer yn ddiogel, gan flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd

1. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o safonau a chanllawiau'r sefydliad sydd eu hangen arnynt i gefnogi arfer diogel ac effeithiol, ac mae ganddynt fynediad iddynt

2. Mae safonau a chanllawiau'n gyfredol ac yn cael eu llywio gan dystiolaeth, yn mynd i'r afael â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg, ac yn blaenoriaethu ddiogelu'r cyhoedd

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Adolygiad yr Awdurdod o Safonau ac arweiniad Ymarferwyr cyhoeddedig
- Cyfathrebu ag ymarferwyr sy'n cefnogi glynu wrth safonau a chanllawiau

a) Mae safonau a chanllawiau'n gyfredol ac wedi'u llywio gan dystiolaeth, ac yn mynd i'r afael â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Polisiau a phrosesau ar gyfer adolygu safonau a chanllawiau ymarferwyr
- Enghreifftiau o adolygiadau diweddar neu gyfredol o safonau neu ganllawiau ymarferwyr
- Enghreifftiau o weithgareddau ymgynghori neu ymgysylltu yn y broses o osod safonau neu ganllawiau ymarferwyr
- Manylion sut mae'r gofrestr wedi ystyried anghenion presennol a dyfodol y dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol (megis technoleg, gweithio mewn partneriaeth rhwng defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr, yr angen am hyblygrwydd, symud i ofal mwy cymunedol, gofal iechyd ataliol)
- Ystyriaeth y corff llywodraethu o safonau neu ganllawiau ymarferwyr
- Safonau a chanllawiau ymarferwyr sy'n dangos ystyriaethau moesegol, gan gynnwys: atebolrwydd, gonestrwydd, cywirdeb, uniondeb, parch, ac egwyddorion dyletswydd broffesiynol didwylledd
- Eglurir safonau ac arweiniad ymarferwyr sy'n unol â chanllawiau gan gyrrff awdurdodol, neu wyriadau o ganllawiau (e.e. amrywiad cenedlaethol mewn canllawiau, tystiolaeth ddibynadwy i gefnogi'r amrywiad)
- Adolygiad yr Awdurdod o gyflwyniadau Rhannu Eich Profiad ynghylch safonau a chanllawiau'r gofrestr

b) Mae gofynion ymarferwyr yn blaenoriaethu gofal a diogelwch sy'n canolbwyntio ar

		gleifion a defnyddwyr gwasanaeth
		Tystiolaeth Awgrymedig: - Gofynion i ymarferwyr ymarfer o fewn terfynau cymhwysedd a chyfeirio at weithiwr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol priodol pan gyrhaeddir y terfynau hynny - Gofynion ar gyfer ymarferwyr ar rannu gwybodaeth, data, cyfrinachedd sydd o leiaf yn bodloni gofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig - Gofyniad i ymarferwyr ddatgan materion addasrwydd proffesiynol, gan gynnwys euogfarnau troseddol a rhybuddion, yn brydlon - Os ydych chi'n gweithio yn y sector annibynnol, gofyniad i ymarferwyr gael polisïau a phrosesau diogelu gyda llwybrau atgyfeirio priodol os nodir pryder diogelu - Lle bo'n berthnasol i'r grŵp ymarferwyr, canllawiau ar ddefnyddio cynhyrchion, offer, a dulliau y gellir a na ellir eu defnyddio - Lle bo'n berthnasol i'r grŵp ymarferwyr, canllawiau neu ofynion arbennig ar gyfer safleoedd i sicrhau iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr - Lle bo'n berthnasol i'r grŵp ymarferwyr, gofynion ar gyfer hysbysebu yn ôl yr angen i'r rôl, yn unol ag ASA a deddfwriaeth megis Deddf Canser 1939 - Gofyniad i ymarferwyr ddal yswiriant indemniad priodol neu gael eu cynnwys gan drefniadau trwy gyflogwyr - Os yw ymarferwyr yn gweithio yn y sector annibynnol, gofynion i sefydlu a gweithredu proses gwyno, gan gynnwys uwchgyfeirio i'r gofrestr pan fo angen
	3. Mae safonau a chanllawiau wedi'u halinio ar draws grwpiau o ymarferwyr lle bo'n briodol, i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, a chanlyniadau rheoleiddio cyson	Tystiolaeth Awgrymedig: - Lle bo modd, safonau a chanllawiau ymarferwyr sydd wedi'u datblygu ar y cyd â, neu mewn perthynas â, disgwyliadau rheolyddion a Chofrestrau Achrededig, a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd - Tystiolaeth o gydweithio megis gweithgorau, safonau a chanllawiau ar y cyd, gweithgareddau ymgysylltu ar y cyd

Addysg a Hyfforddiant

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 6

Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn cynnal ac yn cyhoeddi safonau cyfoes ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd, yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol

1. Mae'r canlyniadau y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cyflawni, a'r safonau a ddefnyddir i asesu darparwyr addysg ac asesiad a rhaglenni addysg yn cael eu cadw'n gyfredol

2. Mae'r canlyniadau y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cyflawni yn cysylltu â'r safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ac yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol, i flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol

3. Mae'r safonau a ddefnyddir i asesu darparwyr addysg ac asesu a rhaglenni addysg yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd. Maent yn cefnogi dysgwyr i gyflawni'r canlyniadau addysgol

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Polisïau a phrosesau ar gyfer adolygu canlyniadau dysgwyr, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Enghraifft o'r adolygiad diweddaraf neu gyfredol o ganlyniadau dysgwyr
- Enghreifftiau o weithgareddau ymgynghori neu ymgysylltu yn y broses o osod canlyniadau dysgwyr
- Ystyriaeth y corff llywodraethu o ganlyniadau dysgwyr

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Adolygiad yr Awdurdod o ganlyniadau neu gwricwla dysgwyr
- Mae canlyniadau dysgwyr yn cynnwys paratoi ar gyfer cofrestru a'r gofynion cyfreithiol, moesegol ac ymddygiadol ar gyfer ymarfer
- Mae canlyniadau dysgwyr yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol am y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
- Mae canlyniadau dysgwyr yn unol â gofynion allanol perthnasol, megis Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, y gyfraith neu ganllawiau ymarferwyr, a chanllawiau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu
- Polisïau sy'n nodi lefelau neu hyda'u gofynnol gofynion addysg a hyfforddiant

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Safonau ansawdd addysg
- Polisïau a phrosesau ar gyfer adolygu safonau ansawdd addysg
- Enghraifft o'r adolygiad diweddaraf neu gyfredol o safonau ansawdd addysg
- Enghreifftiau o weithgareddau ymgynghori neu ymgysylltu yn y broses o osod safonau ansawdd addysg
- Enghreifftiau o ystyriaeth corff llywodraethu o safonau ansawdd addysg
- Safonau sy'n dangos yr angen i ystyried addasrwydd proffesiynol cyn i ddysgwyr ymgysylltu â'r cyhoedd, a chyn dyfarnu cymhwyster sy'n rhoi hawl i wneud cais i gofrestru

Safon 7 Sicrwydd Ansawdd Addysg a Hyfforddiant Mae'r sefydliad yn effeithiol o ran sicrhau ei hun bod darparwyr addysg ac asesu yn darparu dysgwyr sy'n bodloni'r canlyniadau addysg a gofynion cofrestru perthnasol eraill, ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu	1. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr a rhaglenni addysg ac asesu yn gymesur, yn osgoi dyblygu diangen gyda sefydliadau eraill ac yn ystyried risg	Tystiolaeth Awgrymedig: - Lle bo modd, mae prosesau sicrhau ansawdd addysg yn dibynnu ar wybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu fel rhan o brosesau rheoli ansawdd darparwyr hyfforddiant - Lle bo modd, cynhelir prosesau sicrhau ansawdd addysg ar y cyd â chyrff dilysu / cymeradwyo / achredu eraill
	2. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd yn dryloyw ac yn gadarn ac yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn darparu dysgwyr sydd wedi cyflawni'r canlyniadau addysgol	Tystiolaeth Awgrymedig: - Prosesau sicrhau ansawdd addysg cyhoeddedig, sy'n cynnwys pryd y cyflawnir y swyddogaeth hon drwy gydweithio - Prosesau sicrhau ansawdd addysg sy'n sicrhau bod canlyniadau dysgu yn cael eu cyflwyno a'u hasesu'n effeithiol drwy unrhyw gwrs sy'n rhoi hawl i gais i gofrestru - Archwiliad yr Awdurdod o benderfyniadau am gyrsiau addysg a hyfforddiant
	3. Cymerir camau pan nodir pryderon am addysg a hyfforddiant a lle mae materion diogelwch ehangach i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth	Tystiolaeth Awgrymedig: - Prosesau sicrhau ansawdd addysg neu drefniadau cydweithredol sy'n cynnwys prosesau i ystyried pryderon ynghylch darpariaeth addysg a hyfforddiant - Prosesau sicrhau ansawdd addysg neu drefniadau cydweithredol sy'n cynnwys mesurau i atal neu dynnu cymhwysedd yn ôl ar gyfer cais i gofrestru lle gallai pryderon effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd - Prosesau sicrhau ansawdd addysg neu drefniadau cydweithredol sy'n cynnwys mesurau i reoli gwelliant gan ddarparwr addysg
	4. Mae gwybodaeth am ganlyniadau gweithgaredd sicrhau ansawdd yn dryloyw ac yn hawdd ei defnyddio	Tystiolaeth Awgrymedig: Cyhoeddir y mathau a'r lefelau o gymhwyster sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru, gan gynnwys y cyfnod nodweddiadol, mewn ffurf hygyrch i'r cyhoedd

Cofrestru

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 8

Y Gofrestr Gyhoeddus

Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr gyhoeddus gywir a hygyrch o'r holl ymarferwyr iechyd neu ofal, gan nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau ar eu cofrestriad. Lle bo'n briodol, mae hyn yn berthnasol i fusnesau a mangreoedd, sydd wedi'u cofrestru

1. Mae gwybodaeth am unigolion cofrestredig yn gywir, yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddi

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Mae cofnodion gwefan y gofrestr yn cynnwys o leiaf: enw llawn, rhif adnabod unigryw i wahaniaethu rhwng pobl sydd â'r un enw, math o gymhwyster, dolen i wefan yr ymarferydd lle bo modd
- Eglurir mathau o gymwysterau, gan gynnwys hyd astudio nodweddiadol, ar wefan y gofrestr
- Eglurir grwpiau neu lefelau ymarferwyr cofrestredig ar wefan y gofrestr
- Os yw cofrestru yn seiliedig ar gofrestru blaenorol gyda rheoleiddiwr, mae hyn wedi'i egluro'n glir ar wefan y gofrestr ac mae cyrchu cofrestr y rheoleiddiwr yn hawdd
- Gwiriadau yr Awdurdod o fformat y gofrestr am eglurder a chofnodion am gywirdeb a chyflawnrwydd

2. Dim ond gwybodaeth y mae'r sefydliad yn ei hasesu fel gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu'r cyhoedd sydd yn y gofrestr gyhoeddus

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Rhesymeg dros gynnwys y wybodaeth a ddangosir ar y gofrestr (gan gynnwys polisi amgylchiadau eithriadol lle bo'n berthnasol)

3. Mae cyfyngiadau ar ymarfer yn cael eu harddangos yn glir ac yn weladwy i unrhyw un sy'n cyrchu cofnod cofrestr ar gyfer ymarferydd

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Polisiâu a phrosesau ar gyfer cyhoeddi cyfyngiadau ar ymarfer
- Gwiriadau yr Awdurdod o gofnodion cofrestr a chyhoeddi cyfyngiadau ar ymarfer

4. Mae system yn ei lle ar gyfer diweddarau a sicrhau ansawdd y gofrestr

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Polisiâu a phrosesau ar gyfer diweddarau a sicrhau ansawdd y gofrestr, gan gynnwys gwirio cywirdeb data
- Gwiriadau yr Awdurdod o gofnodion cofrestr am gywirdeb a chyflawnrwydd

Safon 9 Y Broses Gofrestru Mae'r sefydliad yn gweithredu proses dryloyw, gymesur, effeithlon a theg i ganiatáu i ymarferwyr, a lle bo'n berthnasol, busnesau neu safleoedd i ymuno, aros ar ei gofrestr, a dychwelyd iddi	1. Dim ond pobl sydd â chymwysterau, sgiliau a gwybodaeth addas ac sy'n addas yn broffesiynol all gofrestru gyda'r sefydliad	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu a phrosesau ar gyfer gwirio hunaniaeth ymgeiswyr i leihau'r risg o geisiadau twyllodrus - Polisiâu a phrosesau ar gyfer gwirio cymwysterau, profiad, sgiliau ac addasrwydd proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru - Polisiâu a phrosesau ar gyfer cydnabod penderfyniadau ymddygiad proffesiynol a wneir gan Gofrestrau Achrededig, rheolyddion neu gyrff rheoleiddio eraill - Os cynigir llwybrau cywerthedd, polisiâu a phrosesau ar gyfer asesu cywerthedd profiad
	2. Dim ond busnesau/safleoedd sy'n bodloni gofynion rheolyddion sydd ar y gofrestr	Ddim yn berthnasol: Dim ond cofrestru ymarferwyr y mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn ei gwmpasu.
	3. Gall pawb wybod beth sydd ei angen i gofrestru gyda'r sefydliad, gan gynnwys sut i wneud apêl, ac mae'r broses yn hawdd ei deall	Tystiolaeth Awgrymedig: Polisiâu, prosesau, ffurflenni a chanllawiau cofrestru, ail-dderbyn ac adfer cyhoeddedig
	4. Mae'r broses ar gyfer cofrestru gyda'r sefydliad, ac ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau cofrestru, yn deg, yn gymesur ac yn effeithlon	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu, prosesau, ffurflenni a chanllawiau cofrestru, ail-dderbyn ac adfer cyhoeddedig Data am yr amser a gymerwyd i gofrestru ymgeiswyr Data ar ganlyniadau prosesau cofrestru - Os oes llwybrau cywerthedd, polisiâu, prosesau, ffurflenni a chanllawiau sy'n egluro sut y bydd profiad yn cael ei ystyried - Mae polisiâu, prosesau, ffurflenni a chanllawiau apelio yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y gellir apelio yn ei erbyn, y sail dros apelio, gwybodaeth am bwy sy'n ystyried apelïadau, pa mor hir y disgwylir i apelïadau

		<i>gymryd, a beth allai fod canlyniadau apêl</i>
	5. Caiff penderfyniadau ynghylch cofrestru ac apeliadau eu hesbonio'n glir	Tystiolaeth Awgrymedig: • Enghreifftiau o benderfyniadau cofrestru ac apelio • Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad gan ymgeiswyr ac apelyddion
Safon 10 Diogelu'r cyhoedd rhag cael eu camarwain ynghylch statws cofrestru Mae'r sefydliad yn cymryd camau cymesur mewn ymateb i'r risg y bydd pobl yn camarwain y cyhoedd ynghylch eu statws cofrestru	1. Mae gan y sefydliad brosesau effeithiol a chyhoeddedig ar waith i ddelio â phobl sy'n camliwio eu statws cofrestru	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae'r gofrestr yn gallu cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu Nod Masnach Marc Ansawdd • Polisiâu a phrosesau ar gyfer mynd i'r afael ag achosion lle mae unigolion nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio logo'r gofrestr neu'n camliwio eu statws cofrestru. • Dim ond ymarferwyr sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio Marc Ansawdd y Cofrestrau Achrededig
	2. Mae'r dull a ddefnyddir i reoli'r risgiau a achosir gan bobl sy'n camliwio eu statws cofrestru yn gymesur, yn ystwyth ac yn gallu addasu i risgiau sy'n newid a risgiau sy'n dod i'r amlwg	Tystiolaeth Awgrymedig: • Darperir gwybodaeth am achrediad a'r Marc Ansawdd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar wefan y gofrestr a sianeli cyfathrebu eraill • <i>Lle mae'n digwydd, mae'r gofrestr yn annog defnyddio'r Marc Ansawdd mewn hysbysebu gan ymarferwyr ar wefannau neu drwy sianeli eraill</i> • Gwiriad yr Awdurdod o wefan y gofrestr • Gwiriad yr Awdurdod o wefannau ymarferwyr
Safon 11 Addasrwydd i gofrestru parhaus Mae gan y sefydliad ofynion a phrosesau cymesur ar waith i sicrhau bod unigolion	1. Mae'r prosesau sicrwydd sydd gan y sefydliad ar waith i sicrhau cymhwysedd ac addasrwydd ymarfer parhaus yn gymesur, yn deg, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau	Tystiolaeth Awgrymedig: • Polisiâu a phrosesau ar gyfer adnewyddu cofrestru'n gyfnodol <i>gan gynnwys ystyried materion addasrwydd proffesiynol, megis euogfarnau neu rybuddion</i> • Ffurflenni cais a chanllawiau ar gyfer adnewyddu prosesau cofrestru • Polisiâu a phrosesau ar gyfer gofynion cymhwysedd parhaus, megis datblygiad proffesiynol parhaus, addysg barhaus neu ailddilysu

cofrestredig yn cynnal eu sgiliau ac yn parhau i fod addas i ymarfer	2. Mae'r sefydliad glir ynghylch diben y gofynion maent yn eu gosod ar unigolion cofrestredig i sicrhau eu cymhwysedd a'u haddasrwydd parhaus, a'u cefnogi i fodloni'r gofynion	Tystiolaeth Awgrymedig: - Mae cofrestr risg ymarferwyr yn cynnwys y gofynion ar gyfer cymhwysedd ac addasrwydd parhaus fel lliniariadau i risgiau a nodwyd - Safonau, canllawiau a chyfathrebiadau i ymarferwyr i'w cefnogi i ddeall a bodloni'r gofynion ar gyfer cymhwysedd ac addasrwydd parhaus
	3. Mae unigolion cofrestredig, cyflogwyr a'r cyhoedd yn glir ynglŷn â'r hyn sydd angen i ymarferwyr ei wneud i gynnal eu cofrestriad	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu a phrosesau cyhoeddadedig ar gyfer adnewyddu cofrestru'n gyfnodol - Polisiâu a phrosesau cyhoeddadedig ar gyfer gofynion cymhwysedd parhaus, megis datblygiad proffesiynol parhaus, addysg barhaus neu ailddilysu - Gwiriad yr Awdurdod o wefan y gofrestr
	4. Mae gofynion sicrwydd y sefydliad ynghylch cymhwysedd ac addasrwydd ymarfer parhaus yn seiliedig ar risg ac wedi'u targedu at ddiogelu'r cyhoedd	Tystiolaeth Awgrymedig: Mae matrices risg ymarferwyr ac ymarferwyr yn nodi sut mae gofynion cymhwysedd ac addasrwydd ymarfer parhaus yn rheoli risgiau i ddiogelwch y cyhoedd

Pryderon

Safon

Disgwyliadau Craidd a Thystiolaeth Awgrymedig

Safon 12

Codi pryderon am unigolyn cofrestredig

Mae'r sefydliad yn sicrhau bod y broses ar gyfer codi pryder yn hygyrch i bawb, yn

1. Gall unrhyw un gael mynediad at wybodaeth am sut i godi pryder am unigolyn cofrestredig i'r sefydliad, y mathau o bryderon y gallant gymryd camau yn eu herbyn, a'r

Tystiolaeth Awgrymedig:

- Adolygiad o wybodaeth gyhoeddadedig am gwynion ymarferwyr gan gynnwys sut i godi pryder, y mathau o bryder y gellir eu hystyried, camau'r broses a'u canlyniadau, hyd nodweddiadol y prosesau, a llwybrau eraill i fynd i'r afael â phryderon y gellid eu datrys yn fwy priodol yn lleol
- Adolygiad yr Awdurdod o'r offer a ddefnyddir i gefnogi pryderon i'w codi, megis ffurflenni, tudalennau gwe, negeseuon e-bost ymateb templed

egluo'r mathau o bryderon y dylid eu cyfeirio atynt, ac yn cefnogi datrysiad lleol amserol i achosion lle bo'n briodol	broses ar gyfer delio â nhw	Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr
	2. Gall unrhyw un godi pryder i'r sefydliad am ymarfer neu ymddygiad unigolyn cofrestredig	Tystiolaeth Awgrymedig: - Mae trothwyon ar gyfer ystyried pryder yn cynnwys materion cymhwysedd ac ymddygiad yn briodol - Offer a ddefnyddir i gefnogi pryderon i'w codi, megis ffurflenni, tudalennau gwe, negeseuon e-bost ymateb templed - Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad am brofiadau o godi pryderon - Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr
	3. Mae'r gofrestr yn annog datrys pryderon ynghylch cofrestryddion gan y sefydliad cywir ar y lefel fwyaf priodol	Tystiolaeth Awgrymedig: - Adolygiad y Awdurdod o wybodaeth gyhoeddedig am gwynion ymarferwyr gan gynnwys sut i godi pryder, y mathau o bryder y gellir eu hystyried, camau'r broses a'u canlyniadau, a llwybrau eraill i fynd i'r afael â phryderon y gellid eu datrys yn fwy priodol yn lleol - Adolygiad yr Awdurdod o'r offer a ddefnyddir i gefnogi pryderon i'w codi, megis ffurflenni, tudalennau gwe, negeseuon e-bost ymateb templed - Lle bo'n briodol, disgwylir ymdrechion i ddatrys pryderon yn lleol cyn ystyried ymchwiliad - Mae pryderon difrifol a allai gynnwys risg barhaus i'r cyhoedd neu hyder y cyhoedd wedi'u heithrio o ddisgwyliadau ar gyfer ymdrechion i ddatrys pethau'n lleol - Cyflew gwersi o ddatrys cwynion i gynorthwyo datrysiadau lleol yn y dyfodol - Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr
	4. Mae gan gyflogwyr a sefydliadau eraill sy'n gwneud atgyfeiriadau eglurder ynghylch y mathau o bryderon y dylid eu cyfeirio at gofrestr, a'r rhai y	Tystiolaeth Awgrymedig: - Adolygiad y Awdurdod o wybodaeth gyhoeddedig am gwynion ymarferwyr gan gynnwys sut i godi pryder, y mathau o bryder y gellir eu hystyried, camau'r broses a'u canlyniadau, a llwybrau eraill i fynd i'r afael â phryderon y gellid eu datrys yn fwy priodol yn lleol - Adolygiad yr Awdurdod o'r offer a ddefnyddir i gefnogi pryderon i'w codi, megis

	dylent geisio eu datrys eu hunain	ffurflenni, tudalennau gwe, negeseuon e-bost ymateb templed - Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad sy'n ymwneud â chyflogwr neu asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau dros ddiogelu'r cyhoedd sy'n codi pryderon neu'n ceisio cymorth gan y gofrestr - Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr
Safon 13 Ymchwilio a datrys pryderon – prydlondeb Mae'r sefydliad yn ystyried, yn ymchwilio ac yn datrys pryderon ynghylch unigolion cofrestredig cyn gynted ag sy'n gyson â datrysiad teg i'r achos	1. Mae pryderon yn cael eu datrys heb oedi afresymol neu anghyfiawn i unigolion cofrestredig, achwynwyr a thystion	Tystiolaeth Awgrymedig: - Data cryno o brosesau trin cwynion yn nodi nifer y pryderon a dderbyniwyd a'r amser a gymerwyd i'w datrys drwy wahanol gamau'r prosesau trin cwynion - Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr - Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad
Safon 14 Ymchwilio a datrys pryderon – tegwch Mae polisïau a phrosesau'r sefydliad ar gyfer ystyried, ymchwilio a datrys pryderon ynghylch unigolion cofrestredig yn deg, yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw, gan amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd	1. Mae'r prosesau ar gyfer archwilio, ymchwilio a datrys pryderon am gofrestryddion yn deg ac yn diogelu'r cyhoedd	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisïau a phrosesau ar gyfer ymdrin â phryderon sy'n nodi sut mae pryderon a dderbynnir yn cael eu hystyried ar gyfer ymchwiliad, sut mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal, a sut mae penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud - Nid yw penderfynwyr yn rhan o ystyried pryder mewn mwy nag un cam - Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau terfynol yn y broses o ymdrin â chwynion yn cynnwys pobl lleig ac maent yn annibynnol ar y corff llywodraethu ac arweinyddiaeth y gofrestr - Archwiliad yr Awdurdod o gwynion ymarferwyr

	2. Mae'r penderfyniadau ynghylch pryderon yn deg i'r holl bartïon dan sylw ac yn diogelu'r cyhoedd	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu, canllawiau a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y broses o ymdrin â chwynion gan gynnwys: ystyried pryderon ar gyfer ymchwiliad, ymchwiliadau, a phenderfyniadau terfynol - Mae polisiâu, canllawiau a phrosesau yn ystyried yn fwy difrifol y pryderon hynny sy'n gysylltiedig â methiant i ddatgan materion addasrwydd proffesiynol, fel euogfarn neu rybudd - Polisiâu a phrosesau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau gan bartïon priodol yng ngwahanol gamau'r broses o ymdrin â chwynion, sy'n cynnwys sut i godi apêl, dyddiadau cau neu amserlenni ar gyfer apelio, sail yr apêl, pwy sy'n ystyried apelïadau, a'r canlyniadau sydd ar gael o'r broses apelio. - Mae polisiâu a phrosesau ar gyfer trin cwynion yn nodi bod y gofrestr yn cymryd y cyfrifoldeb am ymchwilio i'r gŵyn a'i herlyn - Polisiâu a phrosesau ar gyfer sicrhau ansawdd penderfyniadau yn y broses o ymdrin â chwynion, gan gynnwys sicrhau cysondeb canlyniadau a defnyddio dysgu i wella gwneud penderfyniadau - Archwiliad yr Awdurdod o drin cwynion a chanlyniadau sicrhau ansawdd penderfyniadau
	3. Mae pawb yn gallu deall sut a pham mae cofrestrau yn gwneud penderfyniadau wrth archwilio, ymchwilio a datrys achosion	Tystiolaeth Awgrymedig: - Polisiâu a phrosesau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r prosesau trin cwynion - Archwiliad yr Awdurdod o brosesau trin cwynion, gan gynnwys cyhoeddi canlyniadau a chyfathrebiadau i bartïon pan fydd achos wedi'i gau - Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad sy'n ymwneud â dealltwriaeth o'r penderfyniadau a wnaed yn y broses o drin cwynion
Safon 15 Pryderon am unigolion cofrestredig - adnabod risg a	1. Mae'r sefydliad yn gallu asesu ac adolygu lefel y risg mewn achos yn barhaus	Tystiolaeth Awgrymedig: Polisiâu a phrosesau ar gyfer asesu risg i'r cyhoedd a hyder y cyhoedd ar ddechrau ystyried pryder, ac yn rheolaidd drwy gydol cyfnod y gŵyn

gweithredu arno Mae'r sefydliad yn nodi ac yn rheoli risgiau ym mhob achos sy'n awgrymu bod unigolyn cofrestredig yn peri risg ddifrifol i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ac yn cymryd camau amserol i gyfyngu ar ymarfer lle bo angen (megis mesurau dros dro)	2. Mae'r sefydliad yn cymryd camau cyflym a phriodol i gyfyngu ar ymarfer unigolion cofrestredig yn y cyfnod rhwng derbyn y pryder a chwblhau'r achos, pan fyddant yn asesu bod risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth (er enghraifft, ceisio mesurau dros dro ble fo'n berthnasol)	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae polisïau a phrosesau ar gyfer trin cwynion yn ei gwneud yn ofynnol gosod amodau dros dro neu atal dros dro pan fydd risgiau i'r cyhoedd neu hyder y cyhoedd yn cyfiawnhau hynny, megis euogfarn neu rybudd mwy difrifol, ac adolygiad cyfnodol o fesurau dros dro • Polisïau a phrosesau ar gyfer adrodd pryderon difrifol i asiantaethau priodol (megis Cofrestrau Achrededig, yr heddlu, swyddog dynodedig awdurdod lleol (LADO), cyrff rheoleiddio, neu wasanaethau cymdeithasol) • Mae polisïau a phrosesau ar gyfer trin cwynion yn cynnwys terfynau amser sy'n gosod cyflymder priodol i amddiffyn y cyhoedd • Archwiliad yr Awdurdod o brosesau trin cwynion, gan gynnwys asesiad risg a mesurau dros dro
Safon 16 Pryderon am unigolion cofrestredig – cefnogaeth i bob parti Mae'r sefydliad yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar achwynwyr, tystion, ac unigolion cofrestredig sy'n ymwneud â chwyn drwy gydol yr achos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad achos mewn ffordd sensitif ac amserol	1. Mae achwynwyr, tystion a chofrestryddion yn cael eu diweddarau drwy gydol oes yr achos	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae polisïau a phrosesau ar gyfer trin cwynion yn cynnwys gofynion ar gyfer cadw partïon yn y broses gwyno yn gyfredol • Adolygiad yr Awdurdod o gyfathrebiadau templed a ddefnyddir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bleidiau • Archwiliad yr Awdurdod o brosesau trin cwynion, gan gynnwys cyfathrebu â phartïon
	2. Caiff achwynwyr, tystion, a chofrestryddion eu trin ag urddas, parch a sensitifrwydd	Tystiolaeth Awgrymedig: • Mae polisïau a phrosesau ar gyfer trin cwynion yn cynnwys mesurau i gefnogi achwynwyr, tystion ac ymarferwyr i ymgysylltu yn y broses gydag urddas, parch a sensitifrwydd • Adolygiad yr Awdurdod o ganllawiau ar gyfer tystion, achwynwyr, ymarferwyr, partïon agored i niwed

		• Adolygiad yr Awdurdod o gyfathrebiadau templed a ddefnyddir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bleidiau • Archwiliad yr Awdurdod o brosesau trin cwynion ymarferwyr, gan gynnwys cyfathrebu â phartïon a chefnogaeth ac addasiadau a gynigiwyd a'u gweithredu
	3. Mae'r broses yn lleihau niwed pellach i iechyd neu lesiant pob parti	Tystiolaeth Awgrymedig: • Gwybodaeth am gyfeirio at adnoddau sydd ar gael i gefnogi partïon yn y broses gwyno sydd mewn trallod neu sy'n agored i niwed. • Cyflwyniadau Rhannu Eich Profiad ar y profiad o'r broses drin cwynion • Os yw ar gael, gwasanaethau cymorth i bobl sy'n ymwneud â'r prosesau cwyno a gynigir gan y gofrestr

Atodiad – Canllaw graddio risg ar gyfer prawf budd y cyhoedd

	Tystiolaeth wrthrychol bod defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar y practis	Mae risgiau'r ymarfer yn cael eu nodi, eu cyfiawnhau, a'u rheoli gan safonau a gofynion cofrestru'r gofrestr	Ymroddiad i sicrhau bod yr holl driniaethau a gwasanaethau yn cael eu cynnig mewn modd nad yw'n gwneud hawliadau heb eu profi nac yn camarwain y cyhoedd mewn unrhyw fodd
Gwyrdd	Mae cyrff awdurdodol wedi casglu ar sail ymchwil ac adolygiadau gwrthrychol ac annibynnol fod y gweithgareddau yn fuddiol ac/neu effeithiol i iechyd a lles	Mae unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau yn isel ac y gellir delio â nhw trwy ofynion y gofrestr ar gyfer cofrestriad	Mae cyfathrebiadau gan y gofrestr a'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi eu cofrestru yn glir a chywir, nid ydynt yn gwneud honiadau na ellir eu profi, ac maent yn unol â hysbysebion a gofynion safonau masnach perthnasol
Ambr	Rhywfaint o dystiolaeth y gallai gweithgareddau fod yn fuddiol, ond yn debygol o ddibynol ar fesurau canlyniadau a adroddwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu dystiolaeth eilaidd	Mae gan y risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau botensial i achosi niwed corfforol, meddyliol, ariannol, neu arall arwyddocaol, ond gellir lliniaru ar gyfer hyn trwy ofynion y gofrestr ar gyfer cofrestriad	Mae angen sefydlu camau pellach i sicrhau bod y gofrestr a'r rhai a gofrestrir yn darparu gwybodaeth glir a chywir ynghylch triniaethau o fewn cyfnod penodol o amser
Coch	Ychydig iawn neu ddim dystiolaeth fod gan weithgareddau fuddion profadwy o ran iechyd ac/neu les, ac/neu nid yw'r gweithgaredd wedi ei argymhell i'w ddefnyddio gan gorff awdurdodol	Mae'r gweithgareddau yn debygol o fod yn anghyfreithlon ar sail niwed corfforol neu feddyliol, gwahaniaethu neu reswm arall	Mae cofrestr wedi â chymryd camau priodol i sicrhau bod cyfathrebu ganddi a'i unigolion cofrestredig yn glir a chywir, ac mae yna risg materol o gamarwain y cyhoedd